WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Tegryn Jones
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 108A2014 |
| **Dyddiad** | 27 Ionawr 2014 |
| **Tudalennau** | **1** o **2** |

Annwyl Tegryn

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 23 Medi 2013, rhoddais fy marn ar a oedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae'n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ar a yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yr Awdurdod) wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

### Yn fy marn i, ac ar sail gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur.

Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur:

- cyhoeddodd yr Awdurdod asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei adroddiad, *Cynllun Gwella – Rhan 2 2012/13* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013;
- mae'r Adroddiad yn asesu perfformiad yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn amlinellu sut y mae'r Awdurdod wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys gwerthusiadau cryno ar gynnydd yn erbyn amcanion gwella'r Awdurdod, ynghyd â gwybodaeth am berfformiad mewn nifer o feysydd, a chymariaethau, lle bônt ar gael, â'i berfformiad ei hun yn y flwyddyn flaenorol;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys adran fer i ddinasyddion sydd eisiau rhoi adborth neu wneud sylwadau ar yr Adolygiad; ac
- mae'r Adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ar y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi ceisio cydweithredu.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Ni cheir cynigion ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan yr Awdurdod mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu prosesau rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad yr Awdurdod dros y misoedd nesaf ac yn adrodd arno, yn ogystal â chrynhoi fy ngwaith fy hun i gyd a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Awdurdod y byddaf yn ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi: Lesley Griffiths – Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

John Griffiths, Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

John Roberts, Arweinydd Archwilio Perfformiad